Ardal Llangernyw – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
16 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng W. E. Jones
Cyng E. M. Wynne
Cyng D. O. Roberts

1. Rhagymadrodd

Rhoddodd GT gyflwyniad i'r cyfarfod ac esboniad beth fyddai'n ei gynnwys gan gynnwys y gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar ddatblygiad y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu.

Sesiwn Cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = Sylw)

C: A ydych wedi rhoi ein dwy ysgol ynghyd oherwydd rhesymau daearyddol neu am fod y ddwy ysgol yn gwbl wahanol ?
A: Do, fe wnaethom eich grwpio efo'ch gilydd oherwydd lleoliad daearyddol ond nid yw hyn yn golygu bod ateb i'r ddwy ysgol. Gallem gynnwys ysgol arall yn y grŵp hwn, gellid edrych arnoch ar wahân, neu efallai y byddwch yn dymuno ni eich grwpio efo ysgol arall ar gyfer dewisiadau'r dyfodol.
C: Pam fod y data a gyflwynwyd yn anghywir?
A: Bydd DP yn mynd trwy'r taflenni data i esbonio beth gyhoeddwyd ar gyfer eich ardal. Nid yw'r data ond yn gywir ar y dyddiad y'i cyhoeddwyd. Ar y rhestr 'Addas i'r Pwrpas', mae'n dweud nad oes gan eich ysgolion rai eitemau ond mae'r modd y'i cyflwynir yn golygu y cewch dic os ydynt yn bodoli fel ystafell ar wahân ac nad yw'n cael ei rannu. Bydd y data'n cael ei adolygu eto cyn ysgrifennu strategaeth ddrafft.
C: A gadarnhawyd cywirdeb y data cyn ei roi ar y rhyngrwyd ?
A: Do, fe edrychwyd ar y data ond rhaid derbyn bod lle i gamgymeriadau.
C: A fyddwn yn cael cyfle i gywiro'r wybodaeth heno ?
A: Gallwch ddarparu sylwadau a gwybodaeth ychwanegol.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Esboniwyd bod maint ysgol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla a ddarparwyd gan LICC yn seiliedig ar faint llawr yr ysgol. Nid oedd y dosbarth meithrin wedi'i gynnwys. Yn nhermau lleoedd gwag, dim ond disgyblion llawn amser a ystyriwyd yn y cyfrifo.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut oedd yn cael ei gyfrifo – edrychwyd ar y niferoedd ddaeth yn y tair blynedd diwethaf ac yna cymerwyd

y cyfartaledd i rag amcanu'r disgyblion. Dros y 12 mlynedd diwethaf, roedd rhagamcanion o fewn 1% i fod yn gywir. Adolygwyd rhagamcanion disgyblion yn flynyddol.

Cynhyrchwyd rhestr 'Addas i'r Pwrpas' trwy fwletin adeiladau ac awgrymiadau a gafwyd o'r cyfarfodydd dechreuol. Pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddai'n cynnwys yr holl nodweddion hyn. Os oedd dau ddefnydd i un ystafell, doedd ond y prif ddefnydd ar y rhestr yn cael ei dicio. Nodwyd bod y ddogfen yn gywir pan oedd yn cael ei hargraffu a byddai unrhyw newid ers hynny yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth ddrafft. Nid un rhestr ar gyfer pawb oedd hon ac nid oedd yn cael ei defnyddio i gymharu un ysgol ag un arall.

Sesiwn Cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = Sylw)

C: Mae gan ysgolion eisiau cyfrifiaduron yn y dosbarth felly beth ydy bwys os ydynt ar wahân neu beidio ?

A: Mae'r rhestr 'Addas i'r Pwrpas' yn rhestru'r pethau fyddem eu hangen pe baem yn adeiladu ysgol newydd ac yn y byd hwn byddem angen ystafell TGC ar wahân.

C: Mae rhai o'r mannau hyn yn bodoli yn ein hysgol. Os nad yw rhestr 'Addas i'r Pwrpas' yn gywir, sut allwn ni fod yn hyderus o gywirdeb unrhyw wybodaeth arall?

A: Trafodwyd a chytunwyd rhestr 'Addas i'r Pwrpas' gyda phob pennaeth.

C: Pam nad yw wedi'i gywiro gan y bu newidiadau ac mae rhai ardaloedd wedi'u creu?

A: Os nad oedd yr ystafelloedd hyn yn bodoli pan gytunwyd y data ni fyddant yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, bydd y rhestr yn cael ei hadolygu cyn ysgrifennu'r strategaeth ddrafft.

C: Pam nad yw'r cynnydd yn niferoedd y Cylch Meithrin wedi'i gynnwys?

A: Byddwn yn ei gynnwys yn rhagamcanion y flwyddyn nesaf fel adolygiad blynyddol. Bydd pob ffigwr yn cael ei ddiweddaru cyn y bydd unrhyw ddewisiadau yn cael eu cyflwyno.

C: A ydych yn deall pa mor bwysig yw cywirdeb yr wybodaeth ? Rydych wedi cyflwyno ein hysgol mewn golau negyddol.

A: Nid ydym wedi ceisio cyflwyno'r ysgol mewn golau negyddol. Gwyddom fod safonau addysgol yn ardderchog yn y ddwy ysgol. Mae'r rhestr yn nodi beth sy'n bodoli yn yr ysgol yn bresennol.

Trafododd DP ddalgylchoedd a dywedodd bod gan rieni ddewis. Nid yw'r Awdurdod Addysg wedi gofyn yn uniongyrchol i rieni pam eu bod yn dewis rhai ysgolion, ond yn meddwl am ofyn hynny yn y dyfodol.

C: Mae maint ysgol yn canolbwyntio ar ddisgyblion llawn amser ?

A: Ydy

C: Pam bod pryder ynghylch lleoedd gwag yn Ysgol Bro Cernyw gan ei bod bron yn llawn ?

A: Nid yw pob disgybl o'r dalgylch yn mynd i'r ysgol ac mae Bro Cernyw yn cymryd disgyblion o du allan i'r dalgylch. Mae angen sicrhau y gall ysgolion lleol ddygymod â nifer y disgyblion lleol. Mae angen i ni ystyried Bro Cernyw ynghyd ag ysgolion eraill yn yr ardal a chan nad oes gennych lawer o ofod yn sbâr mae angen i ni fuddsoddi yn ysgolion y dyfodol.

C: Pam nad yw Betws y Coed o dan adolygiad dechreuol ?

A: Bydd Betws y Coed yn cael ei hadolygu mewn 2-5 mlynedd gan fod pynciau tanseiliol sydd angen eu datrys. Rhaid eich atgoffa nad ydym wedi mynd i unrhyw ardal i gau ysgol. Yr hyn sydd gennym eisiau ei wybod yw a oes unrhyw ffordd y gall y ddwy ysgol weithio efo'i gilydd. Bydd yn anodd cynnal yr holl ysgolion sy'n bodoli nawr.

C: Ar ddiwedd y cyfarfod hwn nid ydych yn mynd i ddweud 'bydd yr ysgol hon yn cau'?

A: Na, yn bendant. Byddwn yn trafod yr ysgolion efo chi yn ystod y cyfarfod hwn ac yna'n mynd yn ôl ac ystyried amrywiol ddewisiadau ar gyfer y dyfodol.

C: A wyddoch a fydd tai yn cael ei hadeiladu yn yr ardal hon ?

A: Rydym wedi adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac wedi cymryd rhag amcanion adeiladu i ystyriaeth ond ni wyddon a oes cynlluniau pendant i adeiladu tai yn yr ardal.

C: Er mwyn gwella'r hyn ddangosir ar restrau 'Addas i'r Pwrpas' mae angen i chi fuddsoddi yn Ysgol Talhaiarn.

A: Deallwn hyn, ond nid yw'r pot cyfalaf yn ddigon mawr. Mae angen i ni roi strategaeth yn ei lle er mwyn cael arian cyfalaf 21 ganrif gan LlCC ac adeiladu ysgolion newydd yn y sir. Efallai y bydd rhai ardaloedd yn cael ysgolion newydd oherwydd na ellir addasu hen ysgolion. Rydym wedi cymryd camau bach i fuddsoddi yn y gorffennol a dyma ein cyfle i gymryd camau mawr.

C: Mae'r ysgol yn Llangernyw yn ysgol iaith Gymraeg a Thalhaiarn yn ysgol ddwyieithog. Sut ydych yn gweld yr ysgolion yn gweithio efo'i gilydd?

A: Efallai na fydd y ddwy ysgol yn gweithio efo'i gilydd. Mae dewisiadau eraill. Mae angen eich barn i weld pa ddewisiadau eraill sydd ar weithio ynghyd yn y dyfodol.

C: Meddwl y dylai Llansannan a Llangernyw fod wedi'u cysylltu â'i gilydd.

Cyflwynodd GT y gweithdy a gofynnod am farn ynghylch beth roedd pawb eisiau i Wasanaethau Addysg ei wybod am yr ardal a'u hysgolion.

3. Ymateb o'r Gweithdy

<u>Ysgol Bro Cernyw</u>

<u>Addysg mewn ardal wledig</u>

- Mae estyniad o ddiwylliant teuluol yn rhoi gwerthoedd pwysig
- Mae ysgol mewn ardal yn hanfodol i gefnogaeth a rhwymo'r gymdeithas ynghyd
- Cefnogaeth a chyfoethogi'r iaith Gymraeg a diwylliant
- Canolbwynt y gymdeithas
- Cyfoethogi eu haddysg ac anghenion y cwricwlwm
- Mae pobl hŷn a'r gymdeithas yn cael llawer yn ôl o'r plant
- Mae addysg mewn ardal wledig yn llawer mwy na chyrhaeddiad addysgol

- Er bod Llanfair TH ac Ysgol Bro Cernyw yn yr un ardal, maent yn wahanol iawn ac yn cynnig gwahanol addysg

- Mae data yn dangos bod yr addysg a roddwyd yn arwain at gyrhaeddiad uchel - llawer uwch na chyfartaledd Cymru

- Arwain yn naturiol at aelodaeth o Aelwyd Bro Cernyw, un o'r ychydig grwpiau aelwyd sy'n weddill

Adeiladau ac adnoddau

- Canolfan ysgol a chalon y gymdeithas

- Calon a chanolbwynt y gymdeithas

- Clwb brecwast ac ar ôl ysgol dyddiol

- Adnoddau da – plant yn cael cyfleoedd – ar ôl ysgol e.e. dosbarthiadau dawns, Urdd, chwaraeon, coginio, cwrt pob tywydd yn yr ysgol

- Adnoddau chwaraeon da ar y safle – cwrt pob tywydd etc.

- Cynlluniwyd yr adeilad ar gyfer addysg yn y gymdeithas, ac addaswyd yn y pum mlynedd diwethaf ar gyfer y cyfnod sylfaen ac anghenion CC 2008 – cyfraniad gan y gymdeithas rheini/athrawon e.e. £6,000 at gwrs addysg anturus

- Addysg awyr agored – tŷ helyg, ardal cyfnod sylfaen x2, perllan, cwrs chwarae anturus, wal ddringo, ardal bywyd gwyllt, coetir, gardd lysiau, cae muga, cae pêl droed, athletau, cyfeiriannu, chwaraeon, pêl rwyd

- Grŵp meithrin ar y safle

- Talodd rhieni ac athrawon am addasiadau i ddau ddosbarth ar gyfer y cyfnod sylfaen

- Byrddau gwyn rhyngweithiol ymhob dosbarth

- Man TG penodol

Gwerthoedd Ysgolion Gwledig

- Cymraeg naturiol – mamiaith yr ysgol

- Diwylliant – cefnogaeth yn bwysig

- Safonau addysg ardderchog - y data yn cadarnhau hyn, Bro Cernyw yn gyson well na chyfartaledd Cymru, ac ardaloedd tebyg. Dylai Cyngor Conwy fod yn falch.

- Pum disgybl blaenorol o dan 30 wedi ennill Ph.D. Mae hyn yn profi nad yw'n anfantais cael addysg iaith Gymraeg

- Mae Conwy wledig yn wahanol iawn i'r arfordir a dylai addysg adlewyrchu hyn, nid 'un ardal i bawb'

- Mae plant ysgolion gwledig yn edrych ar o lei gilydd, fel tîm, oherwydd nature y gymdeithas

Anghenion plant a lles

- Hawl plant i gael addysg trwy'r iaith a'r diwylliant mae'r rhieni yn ei ddewis

- Y cyfleoedd mae plant yn ei gael - traddodiad, diwylliant a hunaniaeth

- Profiadau trwy gydweithio ag ysgolion eraill o fewn y clwstwr ac yn ehangach

- Mae plant yn hoffi teulu yn edrych ar ôl ei gilydd ac yn cael eu datblygu fel dinasyddion bydol, hyderus

- Ysgol gydag ethos cartrefol, cadarnhaol hapus, diogel

- Cynnig meithrinfa, clybiau brecwast ac ar ôl ysgol i blant

- Pobl hŷn yn cael prydau o'r ysgol

- Plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu a pharch tuag at eraill a'u hunain

Defnydd yr ardal o adeiladau

- Llyfrgell wythnosol

- Etholiadau lleol

- Grŵp meithrin

- Clwb ar ôl ysgol

- MUGA cyhoeddus

- Canolfan gymdeithasol i bobl leol

Clwb garddio, côr, bowlio, gwau, pêl droed, snwcer, te ar amser claddu, pwyllgorau, dramâu, cyngherddau, eisteddfodau, sioe arddio

- Ysgolion eraill yn defnyddio'r estyniad pan fônt yn yr ardal

Materion cymdeithasol

- Diwylliant

- Yr iaith Gymraeg - nid yn unig i barhau'r iaith ar gyfer teuluoedd Cymraeg ond hefyd i deuluoedd sy'n symud i'r ardal sy'n dewis dysgu'r iaith

- Ardal naturiol Gymraeg – un o'r ychydig yng Nghymru

- Addysgu plant lleol i gymryd rhan mewn eisteddfodau - Urdd, lleol, sirol a chenedlaethol - a thrwy hyn teithio trwy Gymru a dod i adnabod plant eraill

- Cyswllt â'r heddlu - atal ymddygiad gwrthgymdeithasol

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Iaith buarth yr ysgol yn datblygu Cymreigrwydd yr ardal

- Pobl hŷn yn cael cinio wythnosol

- Cymryd rhan mewn eisteddfodau lleol

- Trigolion ardal yn gwrando ar blant yn darllen

- Diolchgarwch yn yr eglwys/capeli lleol

- Cyfrannu i elusennau lleol

- Yr ysgol yn trefnu diwrnod mabolgampau lleol

- Partneriaeth gyda'r amgueddfa leol

- Ymweld â chartref yr henoed – Y Ficerdy

- Cymryd rhan yn y christingle

- Ffair Nadolig yr eglwys

- Noson rhieni athrawon

- Cyfrannu i'r Gadlas (papur newydd lleol)

- Cynllun "Not in my back yard" gyda'r heddlu – gwella adnoddau'r pentref – lleihau fandaliaeth

- Aelod o'r gymdeithas yn dod i helpu efo garddio

Llanfair TH

Addysg mewn ardal wledig

- Darparu gwasanaeth i bobl leol

- Addysg yn yr ardal maent yn byw ynddi ond hefyd yn dod â phobl ynghyd
- Datblygu'r pwysigrwydd o fod yn rhan o'r gymdeithas
- Dosbarthiadau llai
- "Amhrisiadwy"
- Athrawon yn adnabod eu plant. Mwy o amser i bob plentyn – eu helpu i ddatblygu fel unigolion
- Plant yn disgrifio mewn nosweithiau rhieni yn well na rhieni
- Cenedlaethau o bobl wedi'u haddysgu yn yr ysgol
- Hawdd atal bwlio, plant o bob oed yn dysgu i barchu a helpu ei gilydd
- Sawl digwyddiad cymdeithasol yn rhoi ymdeimlad o berthyn i blant
- Rhyngweithio uniongyrchol efo natur / tymhorau. Maent yn ei fyw. Planhigion, anifeiliaid, tywydd etc. cael profiad uniongyrchol
- Ysgol Eco, ysgol iach – hawdd ei gwneud i fyny
- Lleoliad daearyddol yr ysgol ar groesffyrdd i Langernyw / Llansannan ac Abergele
- Ôl troed carbon llai
- Blynyddoedd sylfaen y pwysicaf - creu pobl ifanc cytbwys sy'n mynd ymlaen i'r byd yn gwybod am y da a'r drwg

<u>Defnydd yr ardal o adeiladau</u>

- Defnyddio'r gegin ar gyfer cinio'r henoed (18/sesiwn)
- Plant yn falch o'r ysgol fel hen adeilad – hanes etc
- Ar gael ar gyfer dosbarthiadau nos
- Gweithgareddau ar ôl ysgol i blant – chwaraeon, coginio
- Stondin deisennau
- Defnyddir gan yr Urdd
- Cefnogi'r Neuadd Goffa
- Gellid defnyddio gofod ysgol ar gyfer defnydd y pentref ond dim galw mawr gan fod y Neuadd Goffa a Neuadd yr Eglwys. Gallai fod yn agored i ddosbarthiadau nos etc

Materion Cymdeithasol

- Plant lleol yn adnabod pobl leol
- Plant y pentref yn tyfu i fyny efo'i gilydd ac yn dysgu efo'i gilydd mewn amgylchedd diogel
- Y ffaith bod yn rhaid i blant deithio i bentref arall yn golygu na fyddant yn teimlo eu bod yn perthyn i unlle
- Ysgolion bach – adnabod plant yn well
- Mwy o sylw gan athrawon – cydnabod cryfderau /gwendidau / cefndir plant
- *Plant iau yn dysgu gan rai hŷn. Awyrgylch teuluol*
- Bydd y plant yn cael eu chwalu os nad oes ysgol yn yr ardal ac ni fyddant yn adnabod ei gilydd
- Yr ardal yn cefnogi cynyrchiadau'r ysgol h.y. drama Nadolig. Mae'n ddigwyddiad cymdeithasol i hen ac ifanc y pentref
- Bydd cau'r ysgol yn cael effaith ar fusnesau lleol a'r pentref fel cyfanrwydd – efallai y bydd teuluoedd ifanc yn dewis byw mewn mannau eraill – pentref o henoed a thai gwyliau
- Ysgol unigryw yn yr ardal yn cynnig addysg ddwyieithog. Cymraeg iaith gyntaf yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â dysgwyr. Datblygu hyder plant yn y ddwy iaith pan fônt yn gadael Bl 6. Y ddwy iaith yn bwysig ac yn cael eu parchu. Datblygu Cymraeg a hyder rhieni di Gymraeg yn cael ei wneud mewn modd sensitif

Anghenion plant a lles

- Cael eu cludo o'r pentref. Mwya'r siwrneiau mwya'r risg – trawma'r posibilrwydd o newid ysgol
- Dwyieithog
- Rhieni wedi dewis cadw eu plant mewn ysgolion lleol fel y gallant dyfu i fyny yn adnabod eu hamgylchedd a'u ffrindiau
- Materion amgylcheddol cerdded i'r ysgol
- Maint dosbarth – plant yn cael eu trin fel unigolion nid fel haid !
- Anghenion arbenigol plant yn cael eu datblygu'n dda ac yn llai tebygol o gael eu bwlio
- Problemau achoswyd gan y tywydd e.e. llifogydd – gallu cerdded i'r ysgol nawr

- Nid rhif mo disgyblion

- Dod i adnabod y plentyn cyfan – cefndir yn bwysig/adnabod y teulu/perthynas glos gyda rhieni (mantais i'r plentyn – wrth y giât ac unrhyw amser arall, ffurfiol neu anffurfiol

- Pob plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol – cyngherddau neu chwaraeon. Dim problemau wedi'u gadael allan ac yn datblygu hunan barch isel. Datblygu parch ar gyfer ei gilydd hunan barch eu hunain

- Y posibilrwydd mewn ysgol fach o blant ag anghenion arbennig i fod yn annibynnol

- Yr ysgol yn unigryw am ei bod yn cyflwyno Cymraeg i blant na fyddai'n clywed y Gymraeg i'r un graddau mewn ysgol cyfrwng y Saesneg

<u>Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas</u>

- Cymryd rhan ym mywyd yr ardal yn bwysig - gwasanaeth diolchgarwch, Nadolig, Cadoediad, difyrru'r henoed a'r WI

- Cefnogi'r eisteddfod leol

- Sioe flodau'r pentref

- Trigolion yr ardal yn siarad â disgyblion - e.e. Miss Hannah Roberts (92 oed)

- Codi arian i elusennau

- Gweithio o amgylch y pentref – cadwraeth natur/adnabod eu hardal

- Ymweld â'r pentref /ardal

- Adnabod pobl yr ardal

- Stondin deisennau'r pentref - cludo'r henoed i'r ysgol

- Cymdeithas ffrindiau'n ardderchog

- Gwreiddio a dod i adnabod a pharchu'r ardal sy'n creu dinasyddion da

- Mae disgyblion Llanfair yn cael eu cydnabod am eu cwrteisi pan fônt yn mynd i'r ysgol uwchradd

- Awyrgylch teuluol – awyrgylch diogel, cyfeillgar

- Pwyllgor chwaraeon wedi rhoi swm sylweddol o arian i'r ysgol

- Staff yn cludo'r henoed i ddigwyddiadau yn yr ysgol

<u>Adeiladau ac adnoddau</u>

- Adeilad hanesyddol, gwerthfawr, unigryw. 1878 – bydd yn sefyll pan fydd adeiladau newydd wedi mynd
- Plant a staff yn falch o'r adeilad
- Tŵr cloch – parhau i gael ei ddefnyddio
- Buarth – digon o le
- Cyfnod sylfaen – datblygu'n ddyddiol
- Gallu ymestyn – tir ger llaw yn barod i'w ddatblygu
- Wedi buddsoddi ac yn parhau i wneud hynny
- Unigryw
- Ein hysgol hardd wedi creu argraff ar bob ymwelydd
- Pwll yn yr ardd yn cael ei ddatblygu
- Beth am fuddsoddi yn yr adeilad neu adeilad newydd gydag adnoddau i'r ardal ?

<u>Gwerth ysgolion gwledig</u>

- Lleoliad hwylus
- Yr ysgol yn rhan o'r gymdeithas – helpu i wneud dinasyddion da
- Teimlad o ddiogelwch os addysgir plant ger y cartref
- Awyrgylch teuluol
- Defnyddio'r amgylchedd lleol fel dosbarth – awyr purach
- Amgylchedd tawelach
- Cyfle i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol - e.e. WI, yr eglwys, henoed, capel, eisteddfod, chwaraeon
- Gwell rheolaeth o broblemau ymddygiad
- Mwy ymwybodol o'r tymhorau / natur
- Gwell cefnogaeth ar gyfer anabledd
- Gallu asesu anghenion unigol
- Calon y gymdeithas

- Plant yn cefnogi gweithgareddau'r ardal, heb eu cefnogaeth byddai'r gymdeithas yn 'marw'

- Cynnig addysg ddwyieithog yn y cylch – nid oes ysgol ddwyieithog arall yn y cylch

Barn disgyblion Ysgol Llanfair Talhaearn

Addysg mewn ardal wledig

- Llai o sŵn

- Mynd o'r ysgol i weld bywyd gwyllt

- Dim llawer o geir

- Nid mor beryglus

- Llai o siawns o fwlio – llai o blant

- Ardal brydferth a diddorol

- Popeth ar garreg y drws

- Astudio bywyd gwyllt yn haws

- Adnabod pobl y pentref/ardal yn well – maent yn ein hadnabod yn well

- Mwy o gyfle i weld pa mor hardd yw'r ardal

- Canolbwyntio yn well – llai o bobl, lle hyfryd

- Gwybod ble mae pob peth

- Llai o lanast/llygredd

- Cael mwy o sylw gan athrawon

Materion cymdeithasol

- Adnabod mwy o bobl

- Pawb yn ffrindiau

- Gwneud mwy efo plant eraill

- Gwneud mwy o waith

- Haws canolbwyntio

- Llai o siawns o fwlio

- Mwy o gyfle i gynrychioli'r ysgol e.e. cyngor yr ysgol, cyngor eco, tîm rygbi
- Adnabod plant eraill yn well
- Pawb yn edrych ar ôl ei gilydd e.e. plant hŷn yn edrych ar ôl rhai iau
- Ymweliadau addysgol – mwy o amser oherwydd llai o blant

<u>Anghenion a lles plant</u>

- Mwy o ffrindiau o bob oed
- Llai o fwlio
- Gwell addysg – llai o blant, llai o sŵn, haws canolbwyntio
- Mwy o amser ar y cyfrifiaduron
- Plant yn cael mwy o ofal – haws i rieni weld athrawon, gallu dweud wrth ffrindiau neu staff os oes problemau
- Pawb yn cael cyfle i gymryd rhan/cynrychioli'r ysgol – neb yn cael ei siomi

<u>Ysgol fel rhan o'r gymdeithas</u>

- Beicio
- *Nadolig, diolchgarwch, cadoediad*
- *Canu carolau o amgylch y pentref*
- *Ffair Nadolig*
- *Cymryd rhan yn eisteddfodau'r pentref a'r Urdd*
- Difyrru'r WI – gŵyl Ddewi
- *Golchi ceir*
- *Mabolgampau'r ysgol – ffrindiau a theuluoedd yn dod i wylio*
- Christmas Child – pobl a phlant yn dod ag eitemau i'w hanfon
- Y periglor a'r gweinidog yn dod i'r ysgol
- Disgo Pasg
- Stondin deisennau - pobl o'r pentref yn dod â theisennau i'r ysgol
- Canu/ difyrru pobl hŷn

Yr adeilad

- Hen ag iddo hanes
- Unigryw – neb gydag ysgol fel hon, y gloch yn gweithio, clochdy
- Adeilad hardd a diddorol
- Maint da
- Llawer o bethau diddorol y tu mewn
- Pwll gardd
- Buarth mawr - da!
- Bychan ond digon mawr – fel y Tardis!
- Pensaernïaeth ddiddorol
- Adeilad hyfryd/da i'r amgylchedd

Defnydd o'r adeilad gan y gymdeithas

- Grŵp chwarae cyn ysgol
- Grŵp meithrin
- Urdd
- Llyfrgell deganau

Dywedodd GT y byddai'n casglu'r holl wybodaeth a'r ymateb a gafwyd gan y pennaeth. Gallai syniadau a barn gael eu cyflwyno ar ôl y cyfarfod trwy bost-e at TJB neu Wasanaethau Addysg a gellid ei ddarparu trwy'r pennaeth.

4. Sesiwn Cwestiwn ac ateb terfynol **(C = cwestiwn, A = Ateb, S = Sylw)**

Dim

Diolchodd GT i bawb am eu presenoldeb a chyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal pryder a syniadau

- Angen adolygu a chywiro ystadegau etc
- Llanfair TH yn safle daearyddol delfrydol

- Maint dosbarthiadau Llanfair TH
- Gall asiantau eraill ddefnyddio'r asedau e.e. heddlu - helpu i leihau ymddygiad gwrth cymdeithasol
- Cost i'r gymdeithas o ddefnyddio'r adeilad ar gyfer gweithgareddau eraill
- Adeilad yn bresennol yn addas i'r pwrpas – rhaid bod yn addas i'r dyfodol hefyd
- Ysgol Talharian – costau teithio ac oblygiadau os symud i ysgol y tu allan i'r pentref
- Ardal Llangernyw yn unigryw – mae'n debyg am fod yr ysgol ynghanol y pentref
- Bro Cernyw – os ydym i gydweithio ag ysgol arall mae'n rhaid iddi fod yn un Gymraeg
- Beth am roi Betws yn Rhos efo Llanfair – ysgolion tebyg ac wedi arfer cydweithio ?
- Yr ysgol yw echel gweithgareddau eraill a sefydliadau lleol
- Ysgol Talhaiarn – colli ymdeimlad o gymdeithas pentref
- Amgylchedd dwyieithog yn fwy croesawus i'r Di-Gymraeg
- Cymysgedd o oedrannau yn yr ysgol
- Yr ysgol wedi'i hanelu fwy at y teulu
- Llanfair TH yw'r unig ysgol ddwyieithog yn yr ardal a'r rheswm pam rwy'n cludo fy mhlant o Abergele
- Pwysig iawn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant - strategau a pholisïau addysgol - nid ychwanegiad
- Yr iaith Gymraeg yn cael ei gweld yn gynyddol fel ychwanegiad - rhaid iddi gael statws cyfartal i gael ei datblygu ymysg plant
- Mwyafrif y disgyblion yn mynychu ysgol uwchradd Gymraeg ar ôl bod yn Ysgol Llanfair Talhaiarn
- Enw da i'r ysgol ac ardal Llangernyw